# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth

Dyddiad yr arolygiad: 02/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth yn gymuned ddysgu hapus, anogol, ddwyieithog lle mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau. Mae disgyblion yn arddangos agwedd ragorol tuag at eu dysgu. O'r cychwyn yn y dosbarthiadau meithrin, mae disgyblion yn dod yn ddysgwyr annibynnol hyderus, sy'n rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion. Mae disgyblion yn datblygu medrau iaith cryf, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae staff yn rhoi pwyslais buddiol ar ddysgu am eu hardal leol yn Sir Benfro.

Mae staff yn defnyddio'r amgylchedd dysgu yn effeithiol, yn cynnwys yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored, i hyrwyddo medrau disgyblion. Mae disgyblion yn rhannu eu syniadau am beth yr hoffent ei archwilio ac yn gwybod bod athrawon yn ystyried eu safbwyntiau. Mae gan grwpiau llais y disgybl rôl bwysig ym mywyd yr ysgol, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am bethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u dysgu.

Mae staff yn creu diwylliant darllen cryf ar gyfer disgyblion, ac maent yn cymryd pleser mewn llyfrau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen, gan siarad yn hyderus am y llyfrau maent yn eu mwynhau. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu safbwyntiau, gan arwain at eirfa gynyddol gyfoethog a helaeth wrth ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Mae medrau mathemategol a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn trwy weithgareddau a heriau diddorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall gwerth adborth sy'n cael ei ddarparu gan staff ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu eu syniadau a mireinio'u gwaith. Mae athrawon yn darparu lefel addas o her ar gyfer disgyblion yn eu dysgu, ac mae cyflymdra gwersi yn gadarn, ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cyflymdra gwersi yn rhy araf i alluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a chyson.

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod effeithiol sy'n cael ei chefnogi'n fedrus gan gorff llywodraethol diwyd ac arweinwyr a staff ymroddgar. Fel tîm, maent yn ymdrechu'n barhaus i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn datblygu i fod yn unigolion hyderus mewn cymuned gefnogol ac anogol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i rannu'r arfer orau mewn addysgu ar draws yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026